# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad:** | 20 Mai 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol 2025 i 2026 |
| **Adroddiad gan:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151 / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Derbyn penderfyniadau'r Panel a chadarnhau nifer y taliadau uwch gyflogau yn 2025-26 |

## 1. Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau tref a chymuned
- Awdurdodau parciau cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Cyd-bwyllgorau corfforedig

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnâ'r Panel.

Daeth adroddiad blynyddol y Panel yn weithredol ar 1 Ebrill 2025. Mae'r adroddiad wedi'i gymryd i ystyriaeth wrth baratoi cyllideb 2025-26 ac mae cyllid digonol wedi'i neilltuo er mwyn ariannu taliadau aelodau.

Mae'r prif newidiadau sy'n berthnasol i'r Cyngor wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad hwn.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 2. Penderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2025 i 2026

### 2.1 Taliadau i aelodau etholedig

Mae'r tabl isod yn rhestru'r deilyddion swydd oedd â hawl i dderbyn uwch gyflogau a chyflogau dinesig yn 2024-25 (yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 21 Mai 2024) ac yn cymharu cyflogau 2024-25 â'r cyflogau sy'n daladwy ers 1 Ebrill 2025:

| **Rôl / Swydd** | **2024-2025** | **2025-2026** |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol i'r holl aelodau, sydd wedi'i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod | £18,666 | **£19,771** |
| **Band 1**: | | |
| Arweinydd | £59,498 | **£63,020** |
| Dirprwy Arweinydd | £41,649 | **£44,114** |
| **Band 2:** | | |
| Aelodau'r Pwyllgor Gwaith | £35,699 | **£37,812** |
| **Band 3:** | | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Cyngor | £27,999 | **£29,657** |
| **Band 4:** | | |
| Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £27,999 | **£29,657** |
| **Band 5:** | | |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | £22,406 | **£23,726** |

Mae'r cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ('y cap') yn parhau ar 17, gan gynnwys cyflogau dinesig.

### 2.3 Taliadau eraill

Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i'r cyflogau a'r lwfansau a delir. Caiff yr holl benderfyniadau cyfredol eu cyhoeddi ar wefan y Panel.

## 3. Taliadau i aelodau cyfetholedig

Y llynedd, cyflwynodd y Panel yr opsiwn i aelodau cyfetholedig gael eu talu'n unol â chyfradd fesul awr yn hytrach na chyfradd diwrnod neu hanner diwrnod ac fe roddwyd hyblygrwydd lleol i'r 'swyddog perthnasol' benderfynu pryd y byddai'n briodol gwneud hynny.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Mae pedwar o bwyllgorau'r Cyngor yn cynnwys aelodau cyfetholedig, sef y Pwyllgor Safonau, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r ddau bwyllgor sgriwtini. Nid yw'r Cyngor hwn wedi gweithredu'r gyfradd fesul awr hyd yn hyn. Petai hynny'n newid, bydd angen sicrhau cysondeb o ran y meini prawf a ddefnyddir gan swyddogion perthnasol y pedwar pwyllgor.

Mae'r Panel wedi nodi ei fwriad i gynnig arweiniad drwy ddarparu enghreifftiau o arferion da er mwyn gweithredu'r cyfraddau hyn, ond nid oes unrhyw arweiniad wedi ei gyhoeddi hyd yn hyn.

## 4. Trosglwyddo swyddogaethau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Dyma adroddiad blynyddol olaf y Panel. Yn unol â'r Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, bu i swyddogaethau'r Panel drosglwyddo i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar 1 Ebrill 2025.

Mae'r Panel wedi llunio adroddiad etifeddiaeth er mwyn hwyluso'r gwaith o drosglwyddo swyddogaethau i'r Comisiwn.

## 5. Argymhellion

Gofynnir i'r Cyngor:

5.1 dderbyn penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2025-26

5.2 gadarnhau y bydd deilyddion yr un swyddi â 2024-25 â'r hawl i dderbyn uwch gyflogau yn 2025-26, sef:

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd y Cyngor
Dirprwy Arweinydd y Cyngor
Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7)
Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf
Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (2)
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

5.3 awdurdodi swyddogion i newid Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor (Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26.

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-2026:
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU